# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion EOC(3)-02-10

**Dyddiad: Dydd Mawrth 26 Ionawr 2010**
**Amser: 09.30 - 10.55**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones, Dyffryn Clwyd (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Claire Morris, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol
### Eitem 2

Sue Dye, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Dr. Natasha Hirst, TUC Cymru
Julie Cook, TUC Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nid oedd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

1.3 Nid oedd dim buddiannau i'w datgan.

### Eitem 2: Y diweddaraf am yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal

Papurau: EOC(3)-02-10(p1) ac EOC(3)-02-10(p2)

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Pwyllgor.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn dystiolaeth arall ar y mater hwn a gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac undebau llafur i roi tystiolaeth.

### Camau gweithredu

Cynrychiolwyr TUC Cymru i ddarparu enghreifftiau o lle mae lwfansau gweithwyr gwrywaidd wedi cael eu torri i fod yn gyfartal â thâl menywod yn yr un swyddi.

Cynrychiolwyr TUC Cymru i ddarparu rhagor o fanylion ar sefyllfa'r trafodaethau ynglŷn â chyflog cyfartal yng Nghymru.

Ms Dye i gadarnhau a yw tribiwnlysoedd sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn dystiolaeth arall ar y mater hwn ac yn gwahodd CLlLC ac undebau llafur i roi tystiolaeth.

### Eitem 3: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat.

### Eitem 4: Ymchwiliad i wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparwyr gofal iechyd - ystyried materion sy'n dod i'r amlwg

4.1 Trafododd y Pwyllgor y materion a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwiliad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**